# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Cynllun Cydraddoldeb Strategol
# 2020-24

Cyflwyniad ... 3
Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ... 4
Sut y datblygwyd ein Hamcanion ... 6
Amcanion Cydraddoldeb ... 8
Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ... 15
Monitro’r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth ... 16

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Gymraeg /
This document is available in Welsh

# Cyflwyniad

## Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 26,000 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn.

Mae tua 60% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud y dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol wrth iddo ddiwallu Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac i'r diben hwnnw dylai gydweithredu gyda'r awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus hynny lle mae hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol yn rhan o'u dyletswyddau.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc, y Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

# Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Diben Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 yw gofalu bod chwarae teg i bawb trwy roi terfyn ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfleoedd a deilliannau cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

Mae'r ddeddf yn amnewid yr 116 o statudau cydraddoldeb gwahanol o dan un statud sy'n cwmpasu popeth. Mae'n symleiddio ac yn egluro rôl yr awdurdodau lleol fel arweinyddion ar gyfer gwella cydraddoldeb ymhlith cymunedau a'u dinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dyletswyddau penodol ac mae'r rhain yn rhoi gofynion manwl a heriol gerbron awdurdodau lleol – ond mae pwyslais ar 'ystyriaeth briodol' sy'n rhoi mwy o ryddid i awdurdodau i gynhyrchu'r atebion cywir mewn ymateb i broblemau penodol lleol ac maent yn fwy atebol i'w cymunedau.

## Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw o agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hyn yn cael eu diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- **Oedran**
- **Newid rhyw**
- **Rhyw**
- **Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl**
- **Anableddau**
- **Beichiogrwydd a mamolaeth**
- **Tueddfryd rhywiol**
- **Crefydd neu gred**

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafriaeth / gwahaniaethu.

## Yr Iaith Gymraeg

Er na ystyrir bod yr iaith Gymraeg yn nodwedd a ddiogelir o dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn credu na ddylai pobl Cymru ddioddef unrhyw anffafriaeth yn sgil defnydd o'r iaith Gymraeg na'r dymuniad i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae hyn yn arbennig o

berthnasol o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, gan fod 58.6% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg.

Yn unol â'r ymrwymiad yr Awdurdod i ddiogelu, mwyhau a hyrwyddo'r iaith Gymraeg (fel un o nodweddion arbennig Eryri), mi fydd yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys fel rhan o becyn asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r templed hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau na fydd unrhyw strategaethau, polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau sy'n cael eu cynhyrchu gan yr Awdurdod yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n siarad Cymraeg, a bydd yn hytrach yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

## Y Ddyletswydd Gyffredinol

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu / anffafriaeth, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Mae rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gyflawni'r rhain yn golygu y dylid:

- chwalu neu leddfu'r anfanteision a deimlir / brofir gan bobl oherwydd y nodweddion wedi'u diogelu sydd ganddynt;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o'r carfanau hyn sydd wedi'u diogelu, pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl sydd â nodweddion wedi'u diogelu i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae nifer cymharol fychan ohonynt yn cyfranogi.

## Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â'r hyn a ganlyn:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth

- Gwahaniaethau ar sail tâl
- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

# Sut y datblygwyd ein Hamcanion

## Ymgynghori ac Ymgysylltu

Ers i'r ddeddfwriaeth Cydraddoldeb gael ei gyflwyno yn 2010, mae cynrychiolwyr o'r prif gyrff cyhoeddus ar draws gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb, rhannu ymarfer da, ac i fynd i'r afael a materion o anghydraddoldeb sydd yn trawstorri'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth, o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (cyfeirir ato fel “y Rhwydwaith” ar ôl hyn).

Ynghyd â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mae partneriaid y Rhwydwaith yn cynnwys pob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans.

Ers 2010, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu a hwyluso nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori ar draws gogledd Cymru ar gyfer datblygu, addasu ac adolygu amcanion cydraddoldeb rhanbarthol lefel uchel.  Arweiniodd hyn nid yn unig at rannu adnoddau a lleihau costau yn yr hinsawdd economaidd heriol hon, ond bu'n fuddiol i'r ymgynghorwyr (gyda nifer ohonynt yn gweithio yn wirfoddol) gan eu bod wedi gallu cymryd rhan mewn un ymgynghoriad mawr ar draws gogledd Cymru yn lle mynychu nifer o ymgynghoriadau unigol yr awdurdodau.  Roedd y digwyddiad ymgysylltu ac ymgynghori diweddaraf a gafodd ei fynychu gan dros 40 o bobl o 19 o wahanol sefydliadau a chyrff a oedd yn cynrychioli grwpiau a ddiogelir, wedi arwain at ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb lefel uchel ar y cyd.  Mae copi o'r adroddiad yn dilyn y digwyddiad ymgysylltu ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Yn ogystal â gweithio yn rhanbarthol i hel data a safbwyntiau ledled gogledd Cymru, mae'r Awdurdod yn parhau i gasglu ei wybodaeth ei hun yn lleol.

Mae gwybodaeth yn cael ei hel o dro i dro trwy gyfrwng holiaduron ac arolygon, ac mae'r Awdurdod yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd gydag ystod eang o randdeiliaid trwy'r Fforwm Partneriaid (Fforwm Eryri), y Fforwm Cydraddoldeb, Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De, cynghorau cymuned a thref, asiantwyr cynllunio, grwpiau awyr agored a hamddena, tirfeddianwyr a.y.b., yn ogystal â'i staff a'i Aelodau.

## Gwybodaeth o Ymchwil Lleol a Chenedlaethol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ers amser maith ar ei wefan.  Rhannwyd data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 25,702 o dan amrywiol gategorïau gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teulu a sgiliau iaith Gymraeg.  Mae data'r cyfrifiad yn rhoi darlun o fywyd mewn cymunedau unigol yn y Parc Cenedlaethol ynghyd â darparu gwybodaeth leol werthfawr.  Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw data'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth am yr holl nodweddion a ddiogelir.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei drydydd diweddariad ar gyflwr y genedl: ‘A yw Cymru’n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018’.  Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r dystiolaeth yn seiliedig ar i ba raddau y mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi gwella (neu ddim) yng Nghymru ers 2015.  Dyma’r dystiolaeth yn bennaf mae’r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn dibynnu arni i asesu a yw ein Hamcanion Cydraddoldeb ar y cyd yn cael effaith gadarnhaol pellach ar draws gogledd Cymru.  Yn ychwanegol i hyn, ym mis Medi 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei data diweddaraf ar y Dangosyddion Lles Cenedlaethol.

Er bod adroddiad y CCaHD a’r Dangosyddion Lles Cenedlaethol yn ddefnyddiol i ddangos y darlun cenedlaethol, mae yna wahaniaeth mawr yn gallu bodoli rhwng rhanbarthau a siroedd.  Comisiynwyd gwaith pellach gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol i dorri y data cenedlaethol i lawr ac ategu hyn gyda data lleol ychwanegol, i greu darlun cliriach o’r sefyllfa ym mhob un o siroedd gogledd Cymru.

Wedi dadansoddi’r wybodaeth a oedd ar gael ac yn dilyn yr ymarferiad ymgynghorol, datblygwyd 7 o amcanion lefel uchel, a’r rhain fydd y 6 amcan mabwysiedig ar gyfer Gogledd Cymru yn ystod 2020 – 2024.

Er bod pob partner wedi ymrwymo eu hunain i’r amcanion, mae’r Rhwydwaith wedi cytuno y dylai bob partner gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy’n faes blaenoriaeth iddynt hwy ac sy’n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.  Yn ychwanegol i hyn, mae gan y partneriaid y rhyddid i ddatblygu amcanion pellach y maen nhw wedi’u hadnabod sy’n bwysig yn eu hardal hwy.

# Amcanion Cydraddoldeb

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella.

2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

3. Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion a ddiogelir.

4. Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.

5. Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**.

6. Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth ein **penderfyniadau**.

7. Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod hwn gydag Amcan Cydraddoldeb ychwanegol:

8. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Yn sgil swyddogaeth a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn, os unrhyw ddylanwad sydd gennym ar rai o'r amcanion a'r meysydd gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n bosib gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gyfrwng meysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau ar draws Gogledd Cymru.

Gosodwyd isod amcanion cydraddoldeb a'r meysydd gweithredu hynny lle gall yr Awdurdod gyfrannu tuag atynt drwy gyfrwng prosiectau, mentrau a gweithrediadau.

**Amcan**: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

Man Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Asesu, gwerthuso, monitro a chymryd y camau sydd ar gael i ymateb i'r data bwlch cyflog rhyw yn flynyddol. | Bydd y data a gasglwyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol. | Rhyw | Pennaeth Personél |
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau ar weithio hyblyg. | Bydd polisi teg ac effeithiol yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mae rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ac er mwyn aros yn y gwaith. | Pawb | Pennaeth Personél |
| Mi fyddwn yn cyhoeddi data perthnasol ar gyflogaeth a hyfforddiant mewn taenlen data agored ar ein gwefan yn flynyddol. | Bydd y data yn gallu dangos pa gynnydd a wnaed. Mae taenlen data agored yn galluogi mwy o rwyddineb wrth gymharu a meincnodi gyda chyrff cyhoeddus eraill. | Pawb - fodd bynnag mae data cyflogaeth yn anghyflawn ar gyfer yr holl nodweddion a ddiogelir, a lle maent ar gael, efallai na fyddant yn cael eu cyhoeddi oherwydd y niferoedd bychan. | Pennaeth Personél & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| Gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb. | Asesu'r anghenion hyfforddi a threfnu hyfforddiant fel sy'n briodol. | Pawb | Pennaeth Personél & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| Adolygu'r opsiynau ar gyfer ffurflenni cais am swyddi sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod, gan | Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw rwystrau i bobl anabl i ymgeisio am swyddi. | Pobl anabl | Pennaeth Personél |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau hygyrchedd. | | | |
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy'n rhoi cymorth i staff sy'n mynd trwy'r darfyddiad (menopôs). | Cefnogir lles y staff a effeithir arnynt yn uniongyrchol. | Pawb, yn arbennig rhyw | Pennaeth Personél |
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy'n rhoi cymorth i staff sy'n profi camdriniaeth ddomestig. | Yn cefnogi lles y staff a effeithir arnynt yn uniongyrchol. | Pawb | Pennaeth Personél |

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Man Gweithredu:

| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal ar bob polisi, cynllun neu brosiect newydd neu ddiwygiedig, ac y cymerir camau priodol i ymateb i unrhyw effeithiau negyddol a nodir. | Bydd asesiadau effeithiol yn sicrhau fod yr holl bolisïau a chynlluniau yn deg. Bydd asesiadau yn sicrhau fod pob prosiect newydd yn rhoi ystyriaeth i faterion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. | Pawb | Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Prosiectau a Swyddogion sy'n arwain. |
| Sicrhau fod pob digwyddiad a gweithgaredd a drefnir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd yn gynhwysol a bod asesiad hygyrchedd wedi cael ei wneud. | Bydd hyn yn sicrhau cyn belled â phosib na fydd unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan. | Pawb | Trefnwyr digwyddiadau |
| Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy bolisïau effeithiol yng NghDLl Eryri a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy. | Mae argaeledd tai fforddiadwy yn bwysig i gefnogi'r gymuned leol. | Pawb | Cyfarwyddwr Cynllunio & Rheolwr Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr o grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn gynnar yn y broses, wrth ddylunio adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol. | Sicrhau fod adeiladau'r Awdurdod yn hygyrch i bawb. | Pobl Anabl | Pennaeth Eiddo a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol |

**<u>Amcan</u>:** Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.

<u>Man Gweithredu</u>:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y grŵp Iechyd a Lles Staff sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar, yn cyflawni gweithrediadau / newidiadau positif i gefnogi staff. | Bydd gweithrediadau cadarnhaol yn cefnogi iechyd a llesiant staff. | Pawb | Pennaeth Personél |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; i weithio gydag amryw o bartneriaid a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu o leiaf 1 cynllun rhagnodi cymdeithasol. | Mi fydd cynllun rhagnodi cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y cyfranogwyr. | Pawb, ond pobl anabl yn benodol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; hyrwyddo a galluogi amryw o weithgareddau gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, a fydd yn gwella llesiant pobl. | Bydd cynyddu'r cyfleoedd ar gael a'u hyrwyddo'n eang, yn rhoi fwy o gyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal | Mae rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a chadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| llwybrau hirion sydd wedi'u ddiffinio'n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi. | Cenedlaethol i wella eu hiechyd a llesiant. | | |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gyda APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir. | Bydd rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio o gymdeithas, gan nodi'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn gyntaf. | Unwaith y nodir y rhwystrau, gellir datblygu Cynllun i oroesi'r rhwystrau a chynyddu'r lefelau cyfranogi. | Pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gweithio hefo cymunedau i wella dealltwriaeth o'r Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. | Mae cymunedau ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd, yn cael eu nodi a'u cynnwys er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| Parhau i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol. | Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd bod pob gwasanaeth ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r holl staff. |
| Diweddaru 'Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden | Trwy godi ymwybyddiaeth bod yr iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'r diwylliant a | Pawb, yn enwedig | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ac Elusennol', gan gynnwys cyngor, cyfarwyddwyd a defnydd o'r iaith Gymraeg mewn digwyddiadau. | gwead yr ardal, a thrwy annog trefnwyr digwyddiadau i ymgorffori deunyddiau dwyieithog a.y.b., mi fydd hyn yn helpu i feithrin perthynas dda rhwng trigolion ac ymwelwyr. | siaradwyr Cymraeg. | Rheolwr Mynediad a Lles. |

**Amcan:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a hygyrchedd at gyfiawnder**.

Man Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, yn enwedig yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru | Mi fydd un neges gyson, wedi ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, ar draws gogledd Cymru yn cael effaith fwy o lawer. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| Gweithio gyda phartneriaid o Ogledd Cymru ar amryw o ymgyrchoedd i hyrwyddo diogelwch ar-lein. | Mae dioddefwyr sgamiau ar-lein a bwlio yn aml iawn yn bobol fregus sy'n agored i niwed. Bydd codi ymwybyddiaeth trwy gyfres o negeseuon cyson yn cael mwy o effaith. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Amcan:** Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Man Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector gyhoeddus er mwyn rhannu ymarfer da. | Bydd hyn yn galluogi rhannu syniadau ac ymarfer da er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r ddyletswydd yn gywir. | Pawb | Tîm Rheoli & Phenaethiaid Gwasanaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygu ein proses Asesu Effaith a thempledi i sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i effaith economaidd-gymdeithasol a chronnus penderfyniadau'r Awdurdod, cynlluniau a pholisïau (os yw'n briodol). | Trwy greu prosesau asesu integredig, bydd yn sicrhau bod pob elfen yn cael ystyriaeth lawn. | Pawb | Tîm Rheoli & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Amcan**: Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Man Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod y gwasanaethau a brynir i mewn yn gallu cwrdd ag ymrwymiad a disgwyliadau'r Awdurdod ar gydraddoldeb. | Mae gan yr Awdurdod cyfrifoldeb dros gyrraedd y ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo'r gwaith neu'r gwasanaeth yn cael eu rhoi allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i'r broses. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| Byddwn yn monitro faint o gytundebau sy'n glynu at y gweithdrefnau newydd a pha mor effeithiol ydynt. | Mae gan yr Awdurdod cyfrifoldeb dros gyrraedd y ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo'r gwaith neu'r gwasanaeth yn cael eu rhoi allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i'r broses. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| Darparu cefnogaeth (a lle'n briodol) hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn deall eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion a ddiogelir. | Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer & Pennaeth Personél |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darparu cefnogaeth a (lle bo hynny'n berthnasol) hyfforddiant i staff ar sicrhau bod eu Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gadarn. | Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer & Pennaeth Personél |

# Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi’n ofynnol i’r Awdurdod gael trefniadau yn eu lle i alluogi ar gyfer asesu effaith debygol unrhyw bolisïau ac ymarferion arfaethedig ar ein gallu i gydymffurfio â’r ddyletswydd gyffredinol, ynghyd ag effaith unrhyw bolisïau neu ymarferion pan fyddwn yn penderfynu eu hadolygu neu eu diwygio.

Am bob polisi neu ymarfer newydd (neu adolygiad o bolisi neu ymarfer presennol) bydd yr Awdurdod yn asesu’r effaith tebygol ar bobl fydd yn rhannu nodweddion a ddiogelir trwy ymgymryd ag asesiad sgrinio cychwynnol.

Os yw’r polisi neu ymarfer yn debygol o gael effaith, ymgymerir ag asesiad o effaith cydraddoldeb llawn a bydd adroddiad o’r asesiad yn cael ei gynhyrchu.  Bydd pob adroddiad ar yr asesiad yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- pwrpas y polisi neu’r ymarfer sy’n cael ei asesu, os yw’n bolisi newydd neu yn un sy’n bodoli’n barod sy’n cael ei adolygu neu ei ddiwygio;
- crynodeb o’r camau a gymerwyd i asesu’r effaith tebygol ar y polisi neu ymarfer diwygiedig neu arfaethedig;
- crynodeb o’r dystiolaeth a gafodd ei ystyried fel rhan o’r broses asesu;
- canlyniadau’r asesiad; ynghyd ag
- unrhyw benderfyniadau a wnaed yn dilyn yr asesiad.

Cynhyrchwyd ffurflen ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb a darparwyd hyfforddiant i’r staff perthnasol ar sut i ymgymryd ag asesiadau effaith cydraddoldeb llawn.  Mae’r broses yn gwbl weithredol erbyn hyn, a byddwn yn gallu adrodd yn flynyddol ar ganlyniadau’r asesiadau sydd wedi’u cwblhau.

# Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth

Bydd y gweithrediadau sydd wedi eu hamlinellu yn y cynllun hwn ac sydd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn cael eu monitro'n rheolaidd. Bydd y canlyniadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn flynyddol ym mis Gorffennaf.

Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol a gwneud datganiadau cynnydd ar yr hyn a ganlyn:

- y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd er mwyn nodi / adnabod a hel gwybodaeth berthnasol;
- mewn perthynas a'r wybodaeth sydd ganddo, sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer y diben o gyflawni'r pwrpas o gydymffurfio gyda'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau yn y rheoliadau;
- y rheswm pan nad yw wedi casglu'r wybodaeth berthnasol a nodwyd ganddo ond nid yw yn ei feddiant;
- y cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni pob un o'r amcanion cydraddoldeb;
- datganiad ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer nodi / adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol, a'r camau a gymerwyd tuag at gyflawni pob un o'r amcanion cydraddoldeb; a'r
- wybodaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei chyhoeddi mewn perthynas â gwybodaeth cyflogaeth.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ei le am 4 mlynedd, ond caiff ei adolygu a'i ddiwygio fel yr angen ar sail flynyddol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y manylion a osodwyd allan yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn trwy ysgrifennu neu yrru e-bost at:

**Bethan Wyn Hughes**
Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
E-bost: Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru

**Jo Worrall**
Pennaeth Personél
E-bost: Jo.Worrall@eryri.llyw.cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF